



**“GWYBODAETH DIOGELWCH”  
CASTELL CAERDYDD AR GYFER  
YMWELIADAU YSGOLION A GRWPIAU  
ADDYSGOL.**

**LLUNIWYD I GYNORTHWYO WRTH  
BARATOI AR GYFER YMWELIAD AC  
ASESU RISG.**

<p><b>Datganiad Diogelwch</b></p>	<p>Mae Castell Caerdydd yn derbyn ei gyfrifoldebau'n llawn o dan Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch ar waith ynghyd ag asesiadau risg ysgrifenedig a wnaed o ran ein dyletswyddau cyfreithiol tuag at bobl ac eithrio cyflogeion (h.y. ymwelwyr) sy'n dod i'n safle ac yn defnyddio ein cyfleusterau.</p> <p>Mae'ch diogelwch a'ch iechyd tra byddwch ar y safle'n hollbwysig i ni. Fel lleoliad a weithredir gan Gyngor Caerdydd, mae gennym ganllawiau caeth i'w dilyn ac rydym wedi cydweithio'n agos gyda Swyddog Iechyd a Diogelwch Ysgolion y Cyngor o ran lles ein holl ymwelwyr ac i sicrhau bod eich ymweliad yn brofiad dysgu llawn hwyl i'w fwynhau.</p> <p>Gweithredwn bolisi recriwtio, hyfforddi ac asesu staff sy'n sicrhau bod yr holl staff sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch a lles ymwelwyr / cyfranogwyr yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau. Mae holl staff y Castell wedi'u hyfforddi mewn Rhagofalon Tân, Gwacáu mewn achos o Dân ac Iechyd a Diogelwch.</p> <p>Gofynnwn i athrawon ac arweinwyr grŵp gydweithio â staff y Castell i oruchwylio plant yn ofalus bob amser.</p> <p><b><u>Hysbysir ysgolion am y manylion canlynol, a fydd yn helpu'ch ysgol i gyflawni ei hasesiad risg "ymweliad addysgol" ei hun at ddibenion yr ymweliad. NID yw'r cyfarwyddiadau hyn yn disodli asesiad risg unigol, sy'n ofynnol gan nifer o AALLau.</u></b></p>
-----------------------------------	---

<p><b>Cefndir</b></p>	
<p>Profiad</p>	<p>Bu'r lleoliad ar agor i'r cyhoedd ers 1947 ac mae'n Atyniad Sicrwydd Ansawdd i Ymwelwyr dan gynllun VAQAS Bwrdd Croeso Cymru.</p> <p>Yn 2007 a 2012, dyfarnwyd Gwobr Sandford i Gastell Caerdydd am Addysg Treftadaeth. Mae'n cydnabod rhagoriaeth o ran y cyfleusterau a darparu gweithgareddau addysgol mewn lleoliad.</p>
<p>Manylion y Lleoliad</p>	<p>Mae'r lleoliad yn cynnig cyfle i ymwelwyr ddysgu am 2000 o flynyddoedd o hanes yng nghanol y ddinas. Gall disgyblion ddysgu am y Rhufeiniaid, y Normaniaid a phrofi'r ystafelloedd moethus o oes Victoria gan William Burges.</p> <p>Ar gyfartaledd mae ymweliad ysgol yn para 4 awr, gan ganiatáu amser am daith dywysedig o'r ystafelloedd, sesiwn yn y Ganolfan Addysg, amser cinio, ymweliad â'r Gorthwr Normanaidd gyda'r daith glywedol, ffilm fer, ymweliad â'r</p>

	<p>Llochesi Rhyfel ac amser i weld yr hebogyddiaeth a'r amgueddfa filwrol.</p> <p>Ym mis Mehefin 2008, agorwyd Canolfan Ddehongli newydd sy'n cynnig cyfle i ysgolion weld y Wal Rufeinig, gwyllo ffilm fer am y Castell, a chael Taith Glywedol o amgylch tiroedd y Castell (i ddysgu mwy am y Gorthwr Normanaidd, Porth y Gogledd Rhufeinig sydd wedi'i ail-adeiladu, Llwybr y Bylchfur a'r Lawnt). Mae'r canllaw hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae darn yn y ddwy iaith yn arbennig i blant. Mae Amgueddfa Filwrol annibynnol yn y Ganolfan Ddehongli hefyd.</p>
Nifer yr Ymwelwyr	Rydym yn cael tua 250,000 o ymwelwyr yn flynyddol a thua 18,000 o ymwelwyr o ysgolion domestig.
Addasrwydd	Tybir bod y lleoliad yn addas i ddisgyblion o bob oedran. Mae rhywbeth yn y Castell i bob cyfnod allweddol.
Manylion Cyswllt	<p>I drefnu ymweliad, ffoniwch y Swyddfa Docynnau ar 029 2087 8100.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth am y lleoliad ar gael ar ein gwefan - <a href="http://www.castell-caerdydd.com">www.castell-caerdydd.com</a>.</p> <p>Edrychwn ymlaen at eich croesawu, fodd bynnag os ydych am drafod agweddau ar eich ymweliad neu drefnu ymweliad ymlaen llaw, cysylltwch â'r Swyddog Addysg, Elizabeth Stevens, ar 029 2087 8110 neu 029 2087 8100 neu e-bostiwrch <a href="mailto:ESTevens@caerdydd.gov.uk">ESTevens@caerdydd.gov.uk</a> Rydym yn argymhell ymweliad ymlaen llaw os yw'n bosibl - yn enwedig ar gyfer grwpiau sy'n defnyddio'r Ganolfan Addysg.</p> <p>Mae rhestr o ysgolion sydd wedi ymweld â'n lleoliad ar gael ar gais.</p> <p>Gofynnwn i arweinydd y grŵp ddod i'r Swyddfa Docynnau i gyfnewid gwybodaeth cyn mynd i mewn i'r safle.</p> <p>Mae gan y lleoliad rif cyswllt mewn argyfwng pe bai angen cymorth ar ymwelwyr ar y safle. 07970 127657 yw'r rhif a gellir ei ffonio yn ystod oriau agor.</p> <p>Ar ôl eich ymweliad, os oes gennych unrhyw bryderon neu wedi profi unrhyw broblemau ynghylch rheolaeth y lleoliad neu iechyd a diogelwch aelodau'ch grŵp, croesawn y cyfle i drafod y rhain â chi.</p> <p>Ffôn: 029 2087 8100 neu E-bost: <a href="mailto:castellcaerdydd@caerdydd.gov.uk">castellcaerdydd@caerdydd.gov.uk</a></p>
<b>Gwybodaeth Gyffredinol</b>	
Baeddu gan Anifeiliaid mewn ardaloedd cyhoeddus	<p>Ni chaniateir cŵn ar y safle; fodd bynnag, mae croeso cynnes i gŵn tywys. Gofynnir i berchnogion lanhau unrhyw faw a'i osod yn y biniau. Byddwch yn ystyriol o anghenion defnyddwyr eraill y lleoliad.</p> <p>Mae dau baun yn y Castell a dylai athrawon wybod y gallai fod baw peunod ar y llwybrau, y gwair a'r rheiliau, yn arbennig</p>

	ger y Ganolfan Addysg.
Systemau Cyfathrebu	Mae holl staff y safle yn cario teclynnau cymorth cyfathrebu a byddant yn hapus i helpu gydag unrhyw ymholiadau.
Hanes Troseddol / Camau Sifil	Disgwylir i athrawon hebrwng grwpiau drwy'r amser. Cymerir pob mesur rhesymol i sicrhau bod staff a allai fod ar eu pen eu hunain gyda disgyblion neu sy'n ymwneud llawer â'r plant wedi cael gwiriadau hanes troseddol a chamau sifil (niwed ac esgeulustod).
Dringo/Peryglon baglu	Gwaherddir dringo ar goed a waliau o fewn y safle. Anogwch y plant i beidio â dringo ar y magnelau, er mwyn osgoi cwympiadau. Mae llwybrau coblog yn rhai rhannau o'r safle, ynghyd â nifer o bethau sy'n peri perygl o faglu. Dylid nodi'r rhain. Mae'r ardal o flaen y Ganolfan Ddehongli a'r rhan fwyaf o'r dramwyfa wedi'u gorchuddio â "gro clymedig". Er bod plant yn llai tebygol o lithro ar yr arwyneb hwn nag ar arwynebau gro rhydd, a byddai disgyn arno'n rhoi briw iddynt. Felly gofynnwn i chi sicrhau nad yw'r plant yn rhedeg ar yr arwyneb hwn. Mae croeso iddynt redeg ar y gwair ond ni ddylent chwarae â pheli o flaen y tŷ. Gallant wneud hynny ar yr ardal laswelltog mwy o faint.
Gadael yr Adeilad mewn Argyfwng	Mae gweithdrefnau gwacáu mewn argyfwng ar waith. Mae holl staff y safle yn gyfarwydd â'r rhain ac yn eu harfer yn rheolaidd.  Bydd bob amser aelod o staff gyda grŵp, a all arwain y broses o adael yr adeilad os oes argyfwng. Y Ganolfan Addysg yw'r unig eithriad i hyn. Gallai athrawon gael eu gadael â'u grwpiau yn y Ganolfan heb gymorth aelod o staff; fodd bynnag mae aelodau o staff gerllaw a fydd yn cynorthwyo os bydd argyfwng.  Mae Hysbysiadau Gadael yr Adeilad wedi'u postio yn y Ganolfan Addysg. Dylech chi a'ch cydweithwyr eu darllen ar ddechrau'ch sesiwn.  Mewn achos o adael yr adeilad, ewch i fannau cyfarfod y Ganolfan Addysg (a fydd wedi cael eu dangos i chi wrth gyrraedd) oni bai eich bod yn cael eich cyfeirio fel arall gan aelod o staff y Castell.  Ar glywed y larwm, sef cloch sy'n canu'n barhaus, rhaid i bob ymwelydd fynd at y Man Ymgynnull penodedig. Gadewch gotiau a bagiau yn yr ystafelloedd, a dywedwch wrth y plant i beidio â chynhyrfu na gwthio'r rhai o'u blaen.  Os bydd y larwm yn seinio pan fyddwch yn defnyddio'r Ganolfan Addysg, gofynnwn i chi geisio clirio Ystafell Gadw Tŷ (Ystafell 1) yn gyntaf er mwyn gwneud lle i'r bobl o Ystafell y Stiward (Ystafell 2) i adael. Bydd aelod o staff yn dod i

	<p>archwilio'r ystafell, a'r toiledau i sicrhau nad oes neb ar ôl yn yr ardal.</p> <p>Ar ôl cyrraedd y manau cyfarfod, cyfrwch bob aelod o'ch grŵp a rhowch wybod i aelod o staff ar unwaith os oes unrhyw un ar goll.</p>
<p>Cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr sydd ag Anghenion Arbennig</p>	<p>Mae'r lleoliad yn ceisio diwallu gofynion ymwelwyr sydd ag anghenion arbennig. Rhaid i arweinwyr ysgolion a phartïon sicrhau bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod disgyblion ag anghenion arbennig yn cael eu goruchwylio a'u cynorthwyo'n briodol.</p> <p><u>Nam Corfforol</u> – Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i'r Ganolfan Addysg a chyfleuster arlwyo'r Is-grofft ond mae llawer o risiau wrth gyrraedd y prif adeilad a'r Gorthwr. O fis Mai 2011 bydd lifft yn y Tŷ a fydd yn rhoi mynediad i ystafelloedd penodol a fu'n anghyraeddadwy gynt. Sicrhewch ei bod yn gweithio cyn eich ymweliad.</p> <p><u>Nam ar y Golwg</u> – Amlygwyd ymylon grisiau yn y lleoliad. Mae digonedd o oleuadau yn yr ardaloedd dan do. Mae fersiwn fformat mawr o'r nodiadau cyfarwyddyd i'w defnyddio yn y Ganolfan Addysg ar gael. Mae casgliadau cyffwrdd yn nwy ystafell y Ganolfan Addysg, a gellir trefnu taith arbennig i ystafelloedd y Castell ar gais. Mae fersiwn arbennig o'r daith glywedol i bobl â nam ar y golwg.</p> <p><u>Nam ar y Clyw</u> - Rydym yn argymhell eich bod yn rhoi gwybod i staff y Castell wrth gyrraedd y Castell os yw eich grŵp yn cynnwys unrhyw un sydd â nam ar y clyw er mwyn i'r staff allu ceisio helpu lle bynnag y bo'n bosibl. Mae dolen sain yn y Ganolfan Addysg. Rhowch wybod i'r Swyddog Addysg os hoffech ddefnyddio'r ddolen sain. Mae fersiwn iaith arwyddion o'r daith glywedol i'r sawl sydd â nam ar y clyw a fersiynau print bras o sgrïpt y daith glywedol ar gael hefyd.</p>
<p>Cymorth Cyntaf</p>	<p>Mae nifer o swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig ar y safle sydd â bagiau cymorth cyntaf cludadwy cyflawn. Os bydd angen cymorth, ewch at yr aelod agosaf o staff a fydd yn cysylltu â'r swyddog cymorth cyntaf perthnasol ar unwaith. Os bydd argyfwng tra byddwch yn y Ganolfan Addysg, ffoniwch 029 2087 8100 gan ddefnyddio'r ffôn ar y wal yng nghornel yr Ystafell Gadw Tŷ (ger y drws i'r toiled anabl) a gofynnwch i aelod o staff gysylltu â'r swyddog cymorth cyntaf ar ddyletswydd.</p> <p>Os hoffech gysylltu ag aelod o staff ar frys, mae radio du ar y silff ben tân yn yr Ystafell Gadw Tŷ (Ystafell 1) y gellir ei ddefnyddio ar sianel 1. Pwyswch y botwm ar ochr y radio a'i ddal i lawr wrth siarad, a'i ryddhau i glywed yr ateb. Rhaid pwysleisio na ddylid gwneud hyn onid yw'n amhosibl</p>

Gwybodaeth am Ddiogelwch i Ysgolion – Castell Caerdydd

	cysylltu ag aelod o staff ac <b>mae'n hanfodol fod y tonfeddi'n glir os bydd y larwm tân yn canu.</b>
Teithiau Tywys	I ymweld â'r Tŷ (sef rhan Fictoraidd y Castell) caiff eich parti dywysydd, sydd â phrofiad a gwybodaeth sylweddol ac a fydd gyda'ch grŵp drwy gydol y daith dywys o'r tu mewn i'r Castell. Gall ymwelwyr sy'n defnyddio'r daith glywedol wneud hynny fel y mynnant ac ym mha drefn bynnag y mynnant (gan ddefnyddio'r paneli safle a leolir ar y safle). Mae'r daith glywedol yn mynd â chi i'r Gorthwr (grisiau serth, troellog) ar y Bylchfuriau a thrwy'r Llochesi Rhyfel. Sicrhewch fod y plant yn ofalus wrth gerdded y daith hon. Mae sgrîn ar set llaw'r canllaw. Argymhellwn i chi aros yn llonydd wrth ei defnyddio er mwyn osgoi baglu neu gerdded i mewn i unrhyw beth.
Cyfyngiadau Uchder	Mae cyfyngiad uchder o 3073mm a lled o 2642mm drwy brif gât y Castell – ni all cerbydau ddod i'r safle heb ganiatâd ymlaen llaw.
Yswiriant (Atebolrwydd Cyhoeddus)	Mae gennym yswiriant atebolrwydd cyhoeddus neu drydydd parti neu ddarpariaeth amgen ddigonol am hyd at £50 miliwn. Darperir copi o'n tystysgrif yswiriant ar gais i grwpiau sy'n ymweld.
Colli'r Ffordd	Oherwydd natur y lleoliad gallai plant fynd ar goll os fyddant yn crwydro i ffwrdd o bartïon trefnedig.
Gorsafoedd Pobl Coll	Dylai unrhyw bobl sydd ar goll ymgynnull a byddant yn cael eu casglu o'r ardal ger y brif giât (bydd aelod o staff yn sicrhau bod y plentyn yn ddiogel tra'n aros). Os bydd athro neu arweinydd grŵp yn sylweddoli bod plentyn wedi gwahanu o'r grŵp, rhwch wybod i staff y giât neu'r Swyddfa Docynnau, a fydd yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr radio i helpu i ddod o hyd i'r plentyn.
Uchafswm Maint Grŵp	Gall pob taith dywys a phob ystafell yn y Ganolfan Addysg gynnwys hyd at 35 o bobl. Mae gennym gymhareb oedolion/plant o ran ymweliadau ysgol, sef: Plant meithrin - 1 oedolyn am ddim fesul 3 plentyn Dosbarth Derbyn – 1 oedolyn i bob 5 o blant. Blwyddyn 1 a 2 - 1 oedolyn am ddim fesul 6 plentyn Plant 3-6 oed (Cynradd) - 1 oedolyn am ddim fesul 10 plentyn Blwyddyn 7 a hŷn - 1 oedolyn am ddim fesul 15 o blant Bydd y cymarebau hyn yn wahanol i'r rhai sydd yng nghwmni plant ag anghenion arbennig, a chytunir ar hynny wrth drefnu'r ymweliad.
Anghenion Meddygol	Dylai arweinydd yr ysgol neu'r parti gysylltu â'r lleoliad os oes gan unrhyw ddisgybl gyflwr / angen meddygol penodol neu ddifrifol. Bydd angen cynnal trafodaeth i ystyried trefniadau brys. Pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, byddwn yn ceisio cynnwys pob disgybl sydd â chyflwr meddygol penodol neu ddifrifol yn y gweithgareddau a gynigir yn llawn.

Gwybodaeth am Ddiogelwch i Ysgolion – Castell Caerdydd

Planhigion / Ffwng Niweidiol / Gwenwynig	<p>Ar rai adegau o'r flwyddyn gallai aeron gwenwynig fod yn tyfu ar goed a llwyni ar y tiroedd. Dylai'r ysgolion ddweud wrth y plant na ddylent fwyta na phigo'r aeron.</p> <p>Mae rhai ffwng penodol yn tyfu'n achlysurol hefyd. Dylai'r ysgolion ddweud wrth y plant na ddylent fwyta na phigo'r ffwng.</p>
Ymddygiad gofynnol gan ymwelwyr (dim mynediad i ardaloedd staff yn unig)	<p>Rhaid i ymwelwyr beidio â gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>-mynd i mewn i ardaloedd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd</li> <li>-ymddwyn mewn modd afreolus</li> <li>-dringo ar y waliau a'r coed</li> <li>-mynd i'r bylchfuriau heblaw ar y llwybr a ddarperir</li> <li>-rhedeg ar ôl y peunod</li> <li>-tynnu ffotograffau o'r tu mewn i'r adeilad</li> <li>-defnyddio ffôn symudol yn yr adeilad</li> <li>-anwybyddu cyfarwyddiadau'r tywysydd neu unrhyw aelod o staff</li> </ul> <p>Ni chaiff arweinwyr partion adael plant heb eu goruchwyllo / Gall plant ddefnyddio atyniadau heb oruchwyliaeth uniongyrchol os rhydd arweinydd y parti ganiatâd iddo wneud hynny mewn grwpiau priodol</p>
Map Sgematig	<p>Mae map ar gael sy'n cynnwys lleoliad y Ganolfan Addysg, toiledau, cyfleusterau arlwyyo, yn ogystal ag eitemau eraill o ddiddordeb. Rhoddir y map i arweinwyr grwpiau wrth iddynt gyrraedd y Castell.</p>
Archwilio Cyfleusterau / Ardaloedd o'r Safle	<p>Mae staff y castell yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r cyfleusterau ac mae dulliau adrodd mewnol ar waith ar gyfer unrhyw beryglon. Cofnodir archwiliadau safle mewn log. Caiff yr holl offer eu profi'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.</p>
Adnabod Staff y Safle	<p>Mae staff y Castell yn gwisgo gwisg las gyda logo'r Castell arni.</p> <p>Gellir adnabod pob aelod o staff yn hawdd drwy edrych am y logo neu fathodyn adnabod personol.</p>
Traffig Cerbydau	<p>Mae cyfyngiad cyflymder safle ar waith, gydag arwyddion priodol o 5mya.</p> <p>Nid oes lle i barcio bysus ar y safle ond mae man parcio i fysis yng Ngerddi Sophia - sydd tua 15 munud i ffwrdd o'r Castell ar droed.</p> <p>Gall bysus ollwng eu teithwyr y tu allan i'r Castell os oes lle i stopio'n ddiogel.</p> <p>Gallai fod angen mynediad i dir y Castell ar rai cerbydau, ond mae hyn wedi'i gyfyngu. Rhaid cadw ar y cyfyngiad cyflymder (5mya) ond dylai arweinwyr grŵp wybod y gallai fod cerbydau'n symud ar y safle.</p>
Amddiffyn rhag	<p>Mae nifer o ardaloedd ar gael ym mhob rhan o'r lleoliad sy'n</p>

## Gwybodaeth am Ddiogelwch i Ysgolion – Castell Caerdydd

y tywydd / Diogelwch haul	<p>cynnig cysgod rhag y tywydd (tywydd garw neu ddiwrnodau heulog). Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys o dan y coed yn y Castell, rhannau o'r Gorthwr Normanaidd, y Ganolfan Ddehongli, y Llochesi Rhyfel ac Amgueddfa Firing Line (nad yw'r Castell yn ei rhedeg).</p> <p>Argymhellwn yn gryf y dylai plant ddod ag eli haul a hetiau gyda nhw pan fydd yn braf, gan fod llawer o fannau agored yn y Castell sydd heb gysgod.</p>
Cyfleusterau Lles	<p>Mae toiledau ar gael ger y Ganolfan Addysg sydd at ddefnydd grwpiau addysgol yn unig. Gellir eu cyrraedd i lawr grisiau gweddol serth ar ben y coridor sy'n arwain at y Ganolfan Addysg.</p> <p>Mae toiled anabl ar gael yn y Ganolfan Addysg ac mae wedi'i lleoli ger yr Ystafell Gadw Tŷ.</p> <p>Mae toiledau dynion, merched ac anabl hefyd wedi'u lleoli ger prif fynedfa'r Castell, gyda thoiledau merched ar waelod Tŵr y Cloc.</p> <p>Mae toiledau yn y Ganolfan Ddehongli newydd.</p> <p>Mae Caffi'r Castell – sef y cyfleuster arlwygo yn y Ganolfan Ddehongli, yn cynnig dewis o fyrbrydau a diodydd.</p> <p>Ceisiwn gynnig ardal fwyta fewnol pan fydd tywydd garw, ond ni allwn warantu hynny.</p> <p>Fel lleoliad a gynhelir gan Gyngor Caerdydd, rydym yn gweithredu polisi dim ysmegu llym ym mhob rhan o'r safle.</p>

<b>Ardaloedd o Risg Uwch</b>	
Gweithgareddau Antur	Dd/b
Cyswllt ag anifeiliaid	<p>Sicrhewch nad yw disgyblion yn rhedeg ar ôl y peunod (nag adar eraill) nac yn eu bwydo. Mae'r adar hyn yn rhai gwyllt ond maent wedi arfer â dod at bobl i gael eu bwydo, a all rhoi'r argraff i'r plant eu bod yn ddof. Gallant hefyd fod yn niwsans i grwpiau sy'n bwyta o becynnau bwyd. Fel arfer, ni fyddant yn niweidio person, ond gallant ymateb yn andwyol os cânt eu bygwth neu eu dychryn.</p> <p>Hefyd, gofynnwn i chi beidio â bwydo'r adar gan fod hynny'n niweidiol i'w lles.</p> <p>Ni ddylai ymwelwyr fynd i mewn i'r lloc hebogyddiaeth am resymau amlwg.</p>
Llety Preswyl	Dd/b
Reidiau ac Atyniadau mewn Parciau Thema	Dd/b
Offer / Dillad Diogelwch	Dylech ddefnyddio eli haul priodol, yn enwedig yn ystod diwrnodau poeth yr haf!
Gweithgareddau Tanddaearol	Dd/b



## Gwybodaeth am Ddiogelwch i Ysgolion – Castell Caerdydd

Cyrsgiau Dŵr a Phyllau	<p>Mae ffos ddofn yn amgylchynu'r Gorthwr. Dylai athrawon ac arweinwyr grwpiau gadw plant i ffwrdd o ymylon y ffos.</p> <p>Os bydd rhywun yn disgyn i mewn i'r ffos, rhowch wybod i'r aelod agosaf o staff a fydd yn rheoli'r sefyllfa, yn gofyn am gymorth ychwanegol, yn taflu lein achub Perry at y person, ac yn galw am swyddog cymorth cyntaf.</p> <p>Mae llinellau achub mewn mannau amrywiol o amgylch y ffos (mae staff y Castell yn eu harchwilio'n rheolaidd). Maent ar naill ochr mynedfa'r Gorthwr, mewn bocsys gwyrdd amlwg. Dylech eu defnyddio os nad oes aelod o staff yn bresennol.</p>
------------------------	---

<b>Gwybodaeth Arall Berthnasol</b> (gan gynnwys eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys uchod neu ni ellir bodloni unrhyw rai o'r manylebau uchod)	
Wrth ddefnyddio'r Ganolfan Addysg sicrhewch fod plant yn golchi eu dwylo ar ôl cyffwrdd â'r darganfyddiadau archeolegol, a'r arfwisg yn Ystafell y Stiward (Ystafell 2). Mae ystafell ymolchi ger y toiled anabl.	
Gofynnwn yn garedig bod drysau tân yn cael eu cadw ar gau os ydych yn defnyddio'r Ganolfan Addysg, a thoiledau'r Ganolfan addysg, am fod eu cadw ar agor yn torri rheoliadau tân. Os byddwch yn canfod bod drws wedi cael ei gadw ar agor, byddwn yn ddiolchgar petaech yn ei gau.	
Cynhelir digwyddiadau arbennig yn rheolaidd dros y gwyliau ac weithiau ar benwythnosau. Ffoniwch Elizabeth Stevens ar 029 2087 8110 os oes gennych unrhyw ymholiadau am ddigwyddiadau arbennig.	
<b>Llofnod</b>	
<b>Dyddiad</b>	Mai 2014
<b>Enw (mewn Priflythrennau)</b>	ELIZABETH STEVENS
<b>Swydd yn y Sefydliad</b>	Swyddog Addysg
<b>Rhif Ffôn</b>	029 2087 8110
<b>Cyfeiriad e-bost</b>	EStevens@caerdydd.gov.uk